**Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar**
**Health, Social Care and Early Years Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Neil Frow
Managing Director
NHS Wales Shared Services Partnership
(Neil.Frow@wales.nhs.uk)

Hydref 2025

Annwyl Neil

**Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru ("WIBSS")**

Gwnaed Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2025 ar 27 Mawrth 2025 i ddiwygio Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Rhif 2) 2017 ("**Cyfarwyddydau Diwygiedig 2017**") drwy ddarparu ar gyfer cynyddu rhai taliadau cymorth blynyddol, o 1 Ebrill 2025, yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Byddwch yn cofio bod llythyr dyddiedig 27 Mawrth 2025 ("**Llythyr Cyfarwyddydau Mawrth**") hefyd yn cyd-fynd â Chyfarwyddydau Diwygiedig 2017. Roedd hwnnw'n cynnwys cyfarwyddydau ynghylch sut y dylid darllen Cyfarwyddydau Diwygiedig 2017 o ganlyniad i Reoliadau y Cynllun Iawndal Gwaed Heintiedig 2025 (**"Rheoliadau Llywodraeth y DU**") sy'n darparu y byddai'r cyfrifoldeb dros rai taliadau penodol gan WIBSS yn cael ei drosglwyddo i'r Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig ("**IBCA)**" o 15 Ionawr 2026.

Ers hynny, byddwch yn ymwybodol, fel rhan o'r ymateb i'r argymhellion a wnaed yn Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig ar Iawndal a gyhoeddwyd ar 9 Gorffennaf 2025, y cytunwyd y bydd Cynlluniau Cymorth Gwaed Heintiedig yn aros ar agor am flwyddyn galendr bellach. Mae hyn yn golygu y bydd WIBSS yn dal ar agor mewn rhai achosion ac yn parhau i wneud taliadau perthnasol tan 15 Ionawr 2027 ("**y Dyddiad Trosglwyddo Newydd**"), sef y dyddiad newydd y disgwylir i'r IBCA gaffael y cyfrifoldeb dros wneud taliadau cymorth (lle bo'n berthnasol) fel rhan o'r Cynllun Iawndal Gwaed Heintiedig.

Ar y sail honno, dylid diystyru Llythyr Cyfarwyddydau mis Mawrth ac yn lle hynny, rhaid darllen Cyfarwyddydau Diwygiedig 2017 a'r holl ddogfennau cysylltiedig ar gyfer WIBSS mewn modd sy'n gyson â'r safbwyntiau a nodir yn y llythyr hwn, sydd i'w hystyried yn gyfarwyddydau i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ("**Felindre**") a wnaed yn unol ag adran 19 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Rydym wedi cael sicrwydd gan swyddogion Llywodraeth y DU ei bod yn trefnu ar frys i welliannau gael eu gwneud i Reoliadau Llywodraeth y DU i adlewyrchu



Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar • Health, Social Care and Early Years Group
Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff • CF10 3NQ

E-bost • E-mail:
Ben.Brown001@gov.wales
Ffôn • Tel: 03000253464

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

safbwyntiau diwygiedig (megis y Dyddiad Trosglwyddo Newydd), yn ôl yr angen. O'r herwydd, mae cyfeiriadau at Reoliadau Llywodraeth y DU yng ngweddill y llythyr hwn yn gyfeiriadau at reoliadau o'r fath yn eu ffurf a ddiwygir o bryd i'w gilydd. Os bydd unrhyw newid pellach mewn amgylchiadau (er enghraifft, lle y mae Rheoliadau Llywodraeth y DU yn cael eu diwygio mewn ffordd sy'n golygu bod angen inni adolygu'r safbwyntiau a nodir isod) yna byddwn yn eich hysbysu am hynny yn ysgrifenedig.

1. **Personau cymhwysol:** Fel y nodir yn Llythyr Cyfarwyddydau Mawrth, o 1 Ebrill 2025, ni fydd unrhyw berson (1) nad yw wedi'i gofrestru â WIBSS; (2) nad yw eisoes wedi bod yn cael taliadau cymorth rheolaidd ac (3) na wnaed cais am daliadau o'r fath mewn perthynas ag ef cyn 1 Ebrill 2025 a'i gymeradwyo gan Ymddiriedolaeth, yn gymwys i gofrestru â WIBSS nac i gael unrhyw daliadau gan WIBSS. Mae hyn yn golygu, gydag effaith o 1 Ebrill 2025, ac fel oedd yn wir yn Llythyr Cyfarwyddydau Mawrth, fod rhaid i WIBSS beidio â derbyn unrhyw geisiadau newydd i ymuno â WIBSS. Mae eithriad i hyn yn codi yn dilyn marwolaeth person heintiedig, pan fo'r person hwnnw wedi'i gofrestru gyda WIBSS cyn 1 Ebrill 2025. Gweler pwynt 3 isod.

2. **Categorïau'r Taliadau:** Rhaid i daliadau cymorth blynyddol gan WIBSS i unigolion heintiedig byw sydd wedi'u cofrestru â WIBSS fod yn seiliedig ar y categori taliad WIBSS perthnasol a oedd yn gymwys mewn perthynas â'r person hwnnw ar 31 Mawrth 2025. Nid ydynt yn gallu symud i gategori taliad WIBSS gwahanol ar ôl 31 Mawrth 2025 gan y bydd IBCA, mewn amgylchiadau penodol, yn cyfeirio at y categori a oedd yn gymwys i'r person ar y dyddiad hwnnw. Mae Rheoliadau Llywodraeth y DU 2025 a'r canllawiau cysylltiedig yn cynnwys rhagor o fanylion ynghylch hyn, gan gynnwys yr amgylchiadau a fyddai'n gymwys os byddai cyflwr iechyd person heintiedig cymwys yn newid.

3. **Marwolaeth person heintiedig cofrestredig:** O 22 Hydref 2025 ymlaen, pan fo (1) person heintiedig sydd wedi'i gofrestru gyda WIBSS yn marw ar ôl 31 Mawrth 2025; a (2) cyn dyddiad ei farwolaeth, bod y person hwnnw heb dderbyn iawndal gan IBCA o dan Reoliadau Llywodraeth y DU ("**y Person Ymadawedig**"), yna bydd ei briod neu'i bartner sy'n fyw (mae gan delerau o'r fath at ddibenion y llythyr hwn y diffiniadau a ddefnyddir yng Nghyfarwyddydau Diwygiedig 2017), os oes un, yn gallu gwneud cais i WIBSS tan 30 Hydref 2026 am y canlynol:

    a. Mae'r taliadau a restrir ym Mharagraff 5(2) o Gyfarwyddydau Diwygiedig 2017 yn seiliedig ar ba gategori o gynllun cymorth WIBSS yr oedd y Person Ymadawedig ynddo ar 31 Mawrth 2025. Mae hyn yn golygu, yn ddarostyngedig i'r hyn a gynhwysir yn Rheoliadau Llywodraeth y DU, a'r hyn y maent yn cytuno arno â'r IBCA yn unol â Rheoliadau Llywodraeth y DU, y bydd priod neu bartner y Person Ymadawedig sy'n parhau'n fyw yn gymwys i gael taliadau cynllun cymorth blynyddol (100% am flwyddyn o ddyddiad y farwolaeth, a 75% ar ôl hynny) yn seiliedig ar ba gategori'r cynllun cymorth WIBSS yr oedd y Person Ymadawedig ynddo ar 31 Mawrth 2025.

    b. Taliad untro yn ôl disgresiwn o hyd at £4,500, tuag at y gost o gynnal angladd i'r Person Ymadawedig ("**y Taliad Grant Angladd**"). I gadarnhau:

        i. Os nad oes gan y Person Ymadawedig briod neu bartner sy'n fyw, gellir gwneud y taliad Grant Angladd i ystad y Person Ymadawedig.

ii. Rhaid i WIBSS hysbysu derbynnydd y Taliad Grant Angladd y bydd yn ddidynadwy o unrhyw iawndal sy'n ddyledus gan yr IBCA o dan Reoliadau Llywodraeth y DU.

iii. Ni fydd y Taliad Profedigaeth o £10,000 (fel y'i diffinnir yng Nghyfarwyddydau Diwygiedig 2017) yn daladwy mewn unrhyw amgylchiadau.

Ymhellach, os nad oes gan berson heintiedig ymadawedig sydd wedi'i gofrestru gyda'r WIBSS briod neu bartner sy'n fyw ond bod ganddo blant dibynnol (fel y'i diffinnir gan Gyfarwyddydau Diwygiedig 2017), nid yw plant dibynnol o'r fath yn gymwys i wneud cais i WIBSS am unrhyw daliadau. Ym mhob achos, bernir bod paragraff 6 o Gyfarwyddydau Diwygiedig 2017 wedi'i ddirymu.

Mewn amgylchiadau lle mae ail bartner heintiedig priod neu bartner sydd mewn profedigaeth yn marw (ac felly mae yn dioddef profedigaeth eilwaith) ni fydd yn gallu symud categorïau talu ar ôl 31 Mawrth 2025, i ba bartner bynnag a oedd yn derbyn swm taliad y cynllun cymorth uwch ar 31 Mawrth 2025. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu, pa gategori bynnag y cafodd y person sydd wedi cael profedigaeth a oedd wedi'i gofrestru gyda WIBSS ei briodoli iddo pan fu farw ei briod neu'i bartner heintiedig cyntaf (a oedd wedi'i gofrestru gyda'r WIBSS) cyn 31 Mawrth 2025, hynny yw'r categori y bydd y person sydd wedi cael profedigaeth yn aros ynddo waeth beth fo'r categori talu a oedd yn gymwys adeg marwolaeth ei ail bartner heintiedig ar ôl 31 Mawrth 2025 (h.y. os oedd y partner cyntaf mewn categori uwch ar gyfer at ddibenion talu ni fydd y partner sydd wedi cael profedigaeth yn gallu symud i'r categori hwnnw).

4. **Derbyn Iawndal gan IBCA:** Os hysbysir WIBSS, cyn y Dyddiad Trosglwyddo Newydd, fod person sydd wedi'i gofrestru â WIBSS wedi derbyn cynnig iawndal gan IBCA o dan Reoliadau'r DU sydd wedi'i gyfrifo ar y sail na fydd IBCA yn gwneud taliadau cymorth parhaus mewn perthynas â'r person hwnnw ar gyfer y cyfnod ar ôl y Dyddiad Trosglwyddo Newydd ("**Cynnig Terfynol**"), yna rhaid i WIBSS beidio â gwneud taliadau cymorth i'r person hwnnw ar ôl y dyddiad y mae wedi derbyn Cynnig Terfynol yn unol â Rheoliadau Llywodraeth y DU (neu unrhyw ddyddiad arall sy'n ofynnol gan Reoliadau Llywodraeth y DU neu IBCA).

5. **Taliadau Tanwydd Gaeaf:** Mae taliadau tanwydd gaeaf i'w talu fel arfer i dderbynwyr nad ydynt wedi derbyn iawndal craidd gan IBCA o dan Reoliadau Llywodraeth y DU.

6. **Taliadau yn ôl Disgresiwn:** Gall taliadau yn ôl disgresiwn gan WIBSS i bersonau heintiedig (neu eu priod neu bartner sy'n fyw, lle bo'n berthnasol) barhau i gael eu gwneud gan WIBSS tan (1) y Dyddiad Trosglwyddo Newydd; neu, os yw'n gynharach (2), y dyddiad y mae'r person perthnasol yn cytuno ar ei iawndal oddi wrth IBCA. Er hynny, mae hyn yn ddarostyngedig i'r canlynol:

    a. Rhaid i geisiadau am daliadau o'r fath ddod i law WIBSS erbyn 30 Hydref 2026 fan bellaf.

b. Rhaid i unrhyw daliadau o'r fath a wneir gan WIBSS i'r person hwnnw am unrhyw gyfnod ar ôl 31 Mawrth 2025 fod yn ddidynadwy o unrhyw iawndal sy'n daladwy i'r person hwnnw o'r IBCA.

7. **Taliadau Plant:** Dylai WIBSS roi'r gorau i wneud taliadau cynhaliaeth plant i unrhyw berson sydd wedi'i gofrestru gyda WIBSS pan fydd y person hwnnw'n cytuno ar ei iawndal gydag IBCA. Bydd hyn yn gymwys wneud waeth beth fo'r llwybr y mae'r person hwnnw'n ei ddefnyddio i gytuno ar ei iawndal gydag IBCA (h.y. ni waeth a fydd yn parhau i gael taliadau cymorth parhaus gan IBCA ar ôl y Dyddiad Trosglwyddo Newydd).

8. **Taliadau gan WIBSS ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau 1 Ebrill 2026:** Dylid ystyried bod unrhyw daliadau yng Nghyfarwyddydau Diwygiedig 2017 nad ydynt yn daliadau cyfandaliad ac sy'n daladwy (yn ddarostyngedig i Reoliadau Llywodraeth y DU a'r llythyr hwn) ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2026, yn daladwy gan WIBSS ar sail pro-rata am ran o'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2026 ac sy'n dod i ben ar ba bynnag ddyddiad a ganlyn sydd gynharaf: (1) y dyddiad pan fydd y person yn cytuno ar ei iawndal o IBCA yn unol â Rheoliadau 2025; a (2) 19 Ionawr 2027. Pan fydd taliadau cymorth yn cael eu talu i fuddiolwyr yn fisol ymlaen llaw, mae'n dilyn y dylai'r taliad olaf o WIBSS gael ei wneud ym mis Rhagfyr 2026 fan bellaf.

   Ni chaiff taliadau y cyfeirir atynt yng Nghyfarwyddydau Diwygiedig 2017 fel taliadau cyfandaliad untro ac sydd, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Llywodraeth y DU a'r llythyr hwn, yn daladwy gan WIBSS ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2026 i bersonau sydd wedi'u cofrestru â WIBSS, sydd heb gytuno eto ar eu hiawndal o dan Reoliadau Llywodraeth y DU eu hystyried yn rhai sy'n daladwy ar sail pro-rata.

9. **Dyddiad Terfynu ar gyfer Pob Taliad:** Er mwyn osgoi amheuaeth ac er gwaethaf unrhyw beth a gynhwysir yng Nghyfarwyddydau Diwygiedig 2017, y llythyr hwn nac unrhyw ddogfen arall, nid oes unrhyw symiau i'w hystyried yn daladwy gan WIBSS i unrhyw berson ar ôl y Dyddiad Trosglwyddo Newydd.

10. **Apeliadau:**

    c. Os (1) gwnaeth person gais i gael ei gofrestru gyda WIBSS fel person heintiedig cyn 1 Ebrill 2025; (2) os gwrthodwyd ei gais wedyn gan Felindre; a (3) bod y person hwnnw wedi apelio ers hynny, rhaid i unrhyw apeliadau o'r fath gael eu cau/cwblhau gan WIBSS erbyn 31 Rhagfyr 2025.

    d. Os yw (1) person wedi gwneud cais neu'n gwneud cais i gael ei gofrestru gyda WIBSS cyn 30 Hydref 2026 fel priod neu bartner sydd wedi goroesi person heintiedig ymadawedig sydd wedi'i gofrestru gyda WIBSS; (2) bod ei gais wedi cael ei wrthod neu ei wrthod wedyn gan Felindre; a (3) bod y person hwnnw wedi apelio ers hynny neu y bydd yn apelio, rhaid i unrhyw apeliadau o'r fath gael eu cau/cwblhau gan WIBSS erbyn 30 Tachwedd 2026.

Rwyf yn gobeithio bod yr wybodaeth a ddarperir uchod yn ddefnyddiol ond rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw gwestiynau. Rhowch wybod imi hefyd os ydych yn dymuno i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth presennol (2021) gael ei ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau hyn neu os yw Cyfarwyddydau Diwygiedig 2017 ar y cyd â'r llythyr hwn yn rhoi digon o wybodaeth ichi i lywio eich arferion gweithio yn y dyfodol.

Deellir y bydd WIBSS yn ysgrifennu at fuddiolwyr i'w hysbysu am newidiadau i weinyddu WIBSS fel y bo'n briodol. Byddwch cystal â sicrhau hefyd fod gwefan WIBSS wedi'i diweddaru i ddangos beth yw'r sefyllfaoedd cywir a mwyaf cyfredol.

Byddaf yn trefnu i gopi o'r llythyr hwn gael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, a byddaf yn darparu dolen at y rhain ar y wefan ichi maes o law.

Diolch ichi am eich ymgysylltiad defnyddiol parhaus ar y mater hwn.

Yn gywir



**Ben Brown**

**Deputy Director, Quality, Safety and Clinical Conditions**
Dirprwy Gyfarwyddwr, Ansawdd, Diogelwch a Chyflyrau Clinigol

**Quality and Nursing Directorate, Health, Social Care and Early Years Group**

Cyfarwyddiaeth Ansawdd a Nyrsio, Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar